



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddsoddi Ewropeaidd**

**European Structural  
and Investment Funds**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

Buddsoddi ar Fyrddau Cychod  
Pysgota - Mesur I.22 (Erthygl 42:  
Gwerth Ychwanegol ac Ansawdd y  
Cynnyrch)

Cynllun Costau Safonol (SCS)  
Canllawiau

## CYNNWYS

CYFLWYNIAD .....	3
AMCANION STRATEGOL A THEMATIG .....	4
PWY ALL WNEUD CAIS.....	6
GWEITHGAREDDAU CYMWYS .....	7
COSTAU CYMWYS.....	8
COSTAU ANGHYMWYS .....	8
CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF .....	8
CYMORTH GWLADWRIAETHOL .....	9
DETHOL .....	9
SUT MAE GWNEUD CAIS .....	10
AMODAU'R GRANT .....	12
TALU GRANT .....	15
MONITRO BUDDSODDIADAU.....	16
GWEITHDREFN APELIO .....	16
GWEITHDREFN GWYNO .....	16

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r Canllawiau hyn yn egluro'r Cymorth ar gyfer Gwerth Ychwanegol ac Ansawdd Cynnyrch Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) – a'r Cynllun Costau Safonol (SCS) sy'n eich galluogi i wneud cais am gyllid grant ar gyfer rhai eitemau cymwys. Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus. Mae'r eitemau hyn wedi eu rhestru yn y canllawiau atodol sydd â'r teitl 'Rhestr o Eitemau Cymwys' (<https://beta.llyw.cymru/cynllun-costau-safonol-pysgodfeydd-rhestr-o-eitemau-syn-gymwys-i-gael-arian>).
2. Os ydych felly yn ystyried eich hun yn gymwys am SCS a'ch bod am wneud cais am gymorth, darllenwch adran 'Sut i Wneud Cais' y canllawiau hyn a'r canllawiau atodol o dan yr enw 'Defnyddio RPW Ar-lein i Wneud Cais' [https://llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen?exception\\_statuscode=404&ga=2.125675657.264449744.1588580670-2102803203.1588161789](https://llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen?exception_statuscode=404&ga=2.125675657.264449744.1588580670-2102803203.1588161789)
3. Mae cymorth grant ar gael o dan raglen EMFF 2014-2020. Bydd y rhaglen yn cyfrannu at gyflawni yr amcanion canlynol:
  - hyrwyddo pysgodfeydd cystadleuol, cynaliadwy yn amgylcheddol, hyfyw yn economaidd a chyfrifol yn gymdeithasol
  - meithrin y broses o weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP)
  - hyrwyddo datblygiad tiriogaethol cytbwys a chynhwysfawr o ardaloedd pysgodfeydd
  - meithrin datblygiad a gweithredu Polisi Morol Integredig yr Undeb (IMP) mewn ffordd ategol i'r polisi cydlynu a'r CFP.
4. Ni fydd yr amcanion hyn yn arwain at gynnydd yng nghapasiti pysgota cwch pysgota nac yn ei gwneud yn haws i gwch ddod o hyd i bysgod.
5. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â gwella'r gwerth ychwanegol neu ansawdd y pysgod sy'n cael eu dal. Mae rhestr lawn o eitemau cymwys ar gyfer buddsoddi i'w gweld yn y canllawiau atodol (<https://beta.gov.wales/fisheries-standard-costs-scheme-list-items-eligible-funding>)
6. Mae EMFF yn bwysig i'r diwydiant pysgota a chymunedau arfordirol gan y bydd yn helpu busnesau i addasu i'r CFP diwygiedig a chefnogi

cynaliadwyedd hirdymor y sector a thwf economaidd yr ardal.

7. Y ffocws i Gymru yw datblygu sector pysgota cystadleuol a chynaliadwy, gan hwyluso'r broses o weithredu'r CFP, a defnyddio posibiliadau dyframaethu ac annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol.
8. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod buddsoddiadau arfaethedig yn hyfyw yn dechnegol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol ac unrhyw ofynion diogelwch penodol eraill.
9. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw offer sy'n cael ei brynu gyda chyllid EMFF yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Os bydd yr offer sy'n cael ei brynu yn dod yn ddiwerth neu'n anghyfreithlon wedi hyn yna eich risg chi ei hun fydd hyn; ni ellir ad-dalu neu hawlio yn erbyn y cynllun hwn.
10. Ni chaiff perchennog cwch pysgota sy'n derbyn cymorth drosglwyddo'r cwch honno y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ystod o leiaf y bum mlynedd yn dilyn dyddiad talu'r cymorth hwnnw i'r buddiolwr. Os bydd cwch yn cael ei throsglwyddo o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y symiau sy'n cael eu talu ar gyfer y buddsoddiad hwnnw yn cael ei adfer gan Lywodraeth Cymru, mewn swm sy'n gymesur â'r cyfnod na chafodd yr amod ei gyflawni.
11. Braslun o'r Rhaglen a'r ffordd y caiff ei weithredu yn unig a geir yma, ac mae'n bosibl y bydd y rheolau manwl o ran y meini prawf cymhwysedd yn newid.

## AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

12. Mae'r EMFF yn anelu at gefnogi datblygiadau cynaliadwy yn y sectorau pysgota a dyframaethu a chadwraeth yr amgylchedd forol, ochr yn ochr â thwf atodol a swyddi mewn cymunedau arfordirol, drwy:
  - a. Hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol, sy'n arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth: Canolbwyntio ar arloesi a gwerth ychwanegol, gan hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy yn amgylcheddol, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol, ac sy'n gystadleuol ac yn fwy dethol, yn cael gwared ar lai o bysgod ac yn gwneud llai o ddifrod i ecosystemau morol
  - b. Meithrin dyframaethu cynaliadwy, sy'n defnyddio adnoddau yn

- effeithiol, sy'n arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth:  
Sector dyframaethu sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol ac sy'n gystadleuol; i helpu busnesau o'r fath i fod yn hyfyw yn economaidd ac yn gystadleuol
- c. Meithrin y broses o weithredu y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP):  
Cefnogi y broses o weithredu'r CFP drwy gasglu a rheoli data i wella gwybodaeth wyddonol. Mae hyn hefyd yn cefnogi'r broses o fonitro, rheoli a gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd
- d. Cynyddu cyflogaeth a chydlyniant tiriogaethol:  
Cynyddu cyflogaeth a hyrwyddo twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau sy'n dibynnu ar bysgota drwy ddatblygiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned (CLLD)
- e. Cymorth ar gyfer marchnata a phrosesu:  
Gwella marchnata a phrosesu cynnyrch pysgodfeydd a dyframaeth
- f. Meithrin y broses o weithredu'r Polisi Morol Integredig:  
Cefnogi dull mwy cydlynol o fynd i'r afael â materion morol.

13. Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer yr EMFF yng Nghymru yn cynnwys:

- hwyluso'r broses o weithredu'r CFP, gan gynnwys yr ymrwymiad glanio
- asesu'r posibilïadau ar gyfer dyframaethu
- sicrhau bod y diwydiant pysgota yn fwy diogel
- annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol
- datblygu dan arweiniad y gymuned
- cynyddu gwerth ychwanegol pysgod o Gymru
- annog y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth o fewn y diwydiant.

14. Mae'n ofynnol bod pob prosiect sy'n cael cymorth drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI), yn cynnwys EMFF, yn cyfrannu at gyflawni un neu ragor o amcanion polisi strategol neu amcanion thematig. Gall buddsoddiadau gyfrannu at gyflawni nifer o amcanion o'r fath a rhaid iddynt adrodd ar eu cynnydd ar gyflawni'r rhain wrth gyflwyno pob hawliad am grant.

15. Mae Erthygl 24 o Reoliad Rhif 508/2014 (UE) yn egluro y bydd gweithgareddau DDAG o dan EMFF yn cyfrannu at gyflawni'r amcan penodol o dan Flaenoriaeth yr Undeb a nodwyd yn Erthygl 6(1) yn yr un Rheoliad.

16. Mae Erthygl 6(1)(d) yn berthnasol i Erthygl 42 gan ei fod yn datgan bod "Hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy yn amgylcheddol, sydd yn defnyddio adnoddau yn effeithiol, yn arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy geisio yr amcanion penodol canlynol - sicrhau bod mentrau pysgota yn fwy cystadleuol a hyfyw, gan gynnwys y fflyd arfordirol ar raddfa fechan, a gwella diogelwch ac amodau gweithio."

## PWY ALL WNEUD CAIS

17. Cymorth o dan Fesur I.22: Mae Erthygl 42 wedi ei gyfyngu i bysgotwyr ac / neu berchnogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd pysgota yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru<sup>1</sup>

18. Bydd cymorth o dan y Cynllun Costau Safonol yn cael ei gyfyngu i bysgotwyr arfordirol ar raddfa fechan<sup>2</sup>. Nad ydynt yn defnyddio gêr pysgota llusg, a'r rheini sydd â chychod dros 11.99 metr sy'n defnyddio gêr pysgota llusg. Gall busnesau eraill ymgeisio drwy broses ymgeisio llawn Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

19. Bydd cymorth ar gyfer buddsoddiadau ar fyrddau cychod sy'n gwella ansawdd y cynnyrch pysgodfeydd yn **amodol** ar ddefnyddio offer dewisol i leihau'r dalfeydd nad oes eu hangen.

20. Bydd y cymorth yn cael ei gyfyngu i berchnogion cychod pysgota sydd wedi gwneud gweithgarwch pysgota ar y môr am o leiaf 60 diwrnod yn ystod y 2 flynedd galendr cyn dyddiad cyflwyno'r cais am gymorth. Ar ôl derbyn eich cais bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau eich bod wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer gweithgarwch pysgota. Os bydd y gwiriadau'n cadarnhau nad ydych wedi bodloni'r meini prawf, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno prawf dogfennol i gadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofyniad gweithgarwch pysgota.

Dogfennau sy'n cael eu hystyried fel prawf yw:

- nodiadau gwerthu neu dderbynebaw prynwyr
- Ffurflenni Daliad Trwydded Pysgod Cregyn (MSAR)

---

<sup>1</sup>Dylai cychod sydd â pherchnogion y tu allan i Gymru wneud cais yn eu gwlad eu hunain.

<sup>2</sup> Mae Pysgota Arfordirol ar Raddfa Fechan (SSCF) yn golygu pysgota gan gychod pysgota o hyd cyffredinol o 11.99 metr neu lai sydd ddim yn defnyddio offer pysgota llusg fel a restrir yn Nhabl 3 Atodiad I i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 26/2004.

- Ffurflenni Llyfr Log
- Cychod Pysgota 10m neu lai - Dychwelyd Pysgod Asgellog
- Dyddiadur

21. Bydd y cymorth yn cael ei gyfyngu i'r buddiolwyr hynny sydd â trosiant busnes o £200,000 neu lai. Llythyr gan gyfrifydd yn cadarnhau y bydd hyn yn cael ei ystyried fel prawf.
22. Ni dderbynnir ceisiadau oddi wrth sefydliadau neu unigolion sydd wedi'u cael yn euog o dwyll o dan EFF neu EMFF.
23. Ni dderbynnir ceisiadau oddi wrth sefydliadau neu unigolion sydd wedi'u cael yn euog o drosedd y mae Llywodraeth Cymru neu'r Undeb Ewropeaidd yn ei ystyried yn 'dor rheolau difrifol' neu'n dwyll, yn y 12 mis cyn gwneud cais. Gweler y Canllawiau ar wahân ar Dor Rheolau Difrifol a Thwyll.

## **GWEITHGAREDDAU CYMWYS**

24. Bydd gweithgareddau yn gwella gwerth ychwanegol neu ansawdd y pysgod sy'n cael eu dal i fynd i'r afael â'r bygythiad o ostyngiad ym mhreis y farchnad.

25. Y gweithgareddau cymwys yw:

- buddsoddiadau sy'n ychwanegu gwerth at gynnyrch pysgodfeydd, yn benodol drwy ganiatáu i bysgotwyr brosesu, marchnata a gwerthu eu daliadau eu hunain yn uniongyrchol
- buddsoddiadau ar fyrddau cychod sy'n gwella ansawdd cynnyrch pysgodfeydd.

Mae rhestr lawn o eitemau cymwys ar gyfer buddsoddi i'w gweld yn y canllawiau atodol (<https://beta.gov.wales/fisheries-standard-costs-scheme-list-items-eligible-funding>)

O ran Potiau Cregyn Pysgod – mae'r rhain ond yn gymwys i hawlio amdanynt os yw'r cwch yn berchen ichi neu'n rhannol berchen ichi.

26. Bydd cymorth ar gyfer buddsoddiadau ar fyrddau cychod o dan SCS sy'n gwella ansawdd cynnyrch pysgodfeydd yn amodol ar ddefnyddio offer dewisol i leihau'r dalfeydd nad oes eu hangen. Mae gofynion a chyfyngiadau penodol hefyd yn berthnasol wrth benderfynu pa ymgeiswyr

sy'n gymwys i dderbyn cymorth - edrychwch ar yr adran 'Pwy sy'n Gymwys' y Canllawiau hyn am fanylion.

27. Ni fydd cymorth ar gyfer buddsoddiadau y gellir eu hystyried fel ffyrdd o wella'r pysgota neu brynu offer 'tebyg at ei debyg' yn cael ei gefnogi. Gellir adnewyddu potiau cimychiaid dim ond os ydynt yn dangos ffordd well o ddewis maint neu yn dangos eu bod yn cael llai o effaith ar yr ecosystem ac ar rywogaethau nad ydynt yn darged o gymharu â photiau cimychiaid safonol. Ni roddir cymorth ar gyfer potiau cimychiaid ond os nad yw'r potiau cimychiaid presennol yn cael eu defnyddio bellach ar gyfer pysgota, a'u bod wedi eu cyfri a'u harchwilio cyn cael eu chwalu a'u gwaredu gan yr ymgeisydd cyn hawlio taliad. Bydd angen dogfennau i brofi hyn, megis hysbysiad trosglwyddo gwastraff a reolir.
28. Cofiwch y bydd uchafswm o 60 o botiau fesul trwydded pysgota masnachol actif. Mae'r uchafswm hwn yn berthnasol i botiau sy'n cael eu hawlio ar draws gyfnod llawn rhaglen EMFF 2014-2020. Felly dim ond cyfanswm o 60 o botiau pysgota cimychiaid y byddwch chi'n gallu ei hawlio ar draws pob cyfnod SCS a cheisiadau blaenorol EMFF.

### **COSTAU CYMWYS**

29. Cafodd eitemau sy'n gymwys am gymorth grant EMFF o dan SCS eu dewis ymlaen llaw. Mae'n bosibl dod o hyd i'r rhain yn y canllawiau atodol, 'Rhestr o Eitemau Cymwys', ac mae'n bosibl eu dewis ar y ffurflen gais.

### **COSTAU ANGHYMWYS**

30. Unrhyw fuddsoddiadau neu eitemau o offer sydd heb eu cynnwys yn y 'Rhestr o Eitemau Cymwys'.

### **CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF**

31. Isafswm grant y gellir gwneud cais amdano yw **£800.00**.
32. Uchafswm y grant y gellir gwneud cais amdano yw **£24,000.00**..

### Cyfraddau Grant

33. Bydd perchnogion cychod sydd â hyd o 11.99 metr neu lai yn denu cyfradd grant o 80%, a'r cychod hynny sy'n 12 metr (gan gynnwys y rhai hynny sy'n defnyddio gêr pysgota llusg) yn denu cyfradd grant o 50%.



34. Mae'r gyfradd grant fesul eitem yn sefydlog a swm y grant wedi'i ddangos yn y 'Rhestr o Eitemau Cymwys'.
35. Edrychwch ar yr adran 'Pwy All Wneud Cais' yn y Canllawiau hyn i gadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais.

## **CYMORTH GWLADWRIAETHOL**

36. Mae'n rhaid i bob buddsoddiad gydymffurfio â holl reolau cymhwysedd y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol i fod yn gymwys am gyllid.
37. Nid yw Erthyglau 107, 108 nac 109 y TFEU yn berthnasol i'r grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn os cawsant eu gwneud yn unol â Rheoliad (UE) rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, ac o fewn cwrdd Erthygl 42 y TFEU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i fuddsoddiadau fod yn berthnasol i ddal, cynhyrchu ac / neu brosesu cynnyrch pysgodfeydd. Mae'r rhain wedi'u diffinio yn:

Atodiad I y Cytuniad ar gyfer Gweithredu yr Undeb Ewropeaidd (yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o dan 2012/C 326/01) ac

Atodiad I a II Rheoliadau Trefniadaeth y Farchnad Gyffredin EU 1379/2013.

38. Os ydych yn teimlo nad yw eich buddsoddiad yn bodloni'r meini prawf hyn yna dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod eich buddsoddiad cyn gwneud cais.

## **DETHOL**

39. Mae gofyn ichi ddewis eitemau cost safonol hyd at werth y grant mwyaf (£24,000). Bydd y system yn cyfrif eich sgôr yn awtomatig trwy gyfrif nifer y pwyntiau sydd wrth bob eitem. Bydd sgôr yn cael ei phennu ar gyfer pob eitem ac nid yw'r sgôr hon yn newid waeth beth yw maint yr eitem. Caiff y cyfanswm sgôr ei rhannu gan gyfanswm y grant y gofynnwyd amdano. Bydd y prosiectau sydd â'r sgôr uchaf yn mynd yn eu blaenau.
40. Pwrpas y broses sgorio yw i Lywodraeth Cymru allu rhoi'r ceisiadau yn eu trefn yn ôl faint o arian sydd ar gael ym mhob cyfnod ymgeisio.

41. Ar ôl cyflwyno'r cais, chewch chi ddim newid yr eitemau rydych wedi'u dewis i'w prynu.

### **Dangosyddion Canlyniadau**

42. Yn eich cais, mae'n rhaid ichi ddewis un neu ragor o'r Dangosyddion Canlyniadau isod sydd fwyaf addas ar gyfer eich prosiect a darparu'r wybodaeth berthnasol.

Dangosydd Canlyniadau 1.3: Newid mewn elw net

- Elw blynyddol cyn y prosiect
- Rhagolygon o ran elw blynyddol wedi cwblhau'r prosiect

Dangosydd Canlyniadau 1.5: Newid mewn effeithlonrwydd ynni dal pysgod (mewn litrau o danwydd/tunelli o'r ddalfa wedi'i glanio)

- Defnydd blynyddol o danwydd cyn y prosiect
- Rhagolygon blynyddol o ran defnyddio ynni wedi cwblhau'r prosiect
- Daliad blynyddol a laniwyd cyn y prosiect
- Rhagolygon o ran dalfa flynyddol wedi'i glanio wedi cwblhau'r prosiect

Dangosydd Canlyniadau 1.8: Cyflogaeth wedi'i gynnal (FTE) yn y sector pysgodfeydd neu weithgareddau ategol

- Nifer y swyddi cyn y prosiect
- Nifer y swyddi a ragwelir cyn cwblhau'r prosiect

Dangosydd Canlyniadau 1.9a: Newid yn nifer yr anafiadau neu ddamweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith

- Nifer blynyddol o anafiadau neu ddamweiniau cyn y prosiect
- Rhagolygon o ran nifer blynyddol o anafiadau neu ddamweiniau wedi cwblhau'r prosiect

43. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi wedi cwblhau'r prosiect i benderfynu ar y canlyniadau a gafwyd.

### **SUT MAE GWNEUD CAIS**

44. Mae'n bosibl gwneud cais am SCS drwy RPW Ar-lein. Mae'n rhaid ichi gofrestru yn gyntaf am gyfrif Gateway y Llywodraeth, a chyfrif RPW Ar-lein.

Mae canllaw ar sut i gofrestru i'w gael yn y canllawiau atodol, o dan yr enw 'RPW Ar-lein: Dechrau Arni' (<https://beta.llyw.cymru/rpw-ar-lein-dechrau-arni>).

45. Mae canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen gais ar RPW Ar-lein i'w cael yn y canllawiau atodol, o dan yr enw 'Cynllun Costau Safonol: Defnyddio RPW Ar-lein i Wneud Cais' (<https://beta.llyw.cymru/cynllun-cost-safonol-pysgodfeydd-gan-defnyddio-rpw-ar-lein-i-wneud-cais>).
46. Os byddwch yn llwyddiannus byddwch yn cael cynnig grant drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.
47. Os byddwch yn llwyddiannus rhaid ichi brynu'r **holl** eitemau sydd ar eich contract a'u hawlio trwy'ch cyfrif RPW ar-lein o fewn **120 o ddyddiau calendr** ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi.
48. Os byddwch yn llwyddiannus rhaid ichi dderbyn y contract o fewn **30 diwrnod calendr** ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi. Os na fyddwch wedi derbyn eich contract o fewn **30 diwrnod calendr**, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.
49. Caiff manylion llawn pryd y bydd yn rhaid ichi dderbyn y contract a phryd y bydd yn rhaid ichi brynu'r eitemau a'u hawlio eu nodi yn eich contract.
50. **Ni chewch brynu'r eitemau yn eich contract nes eich bod wedi derbyn eich contract.**
51. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **bydd pob gwybodaeth sy'n cael ei roi i Lywodraeth Cymru yn cael ei drin yn gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch buddsoddiad.**
52. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth a roddir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**

53. Mae tri chanlyniad posibl:

- (a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Byddwch yn derbyn llythyr yn pennu'r rhesymau pam y cafodd eich cais ei wrthod.
- (b) Mae'ch prosiect yn gymwys i gael ei ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus. Cewch wneud cais eto ond o fewn cyfnod ymgeisio gwahanol **ond dim ond os nad ydych wedi prynu yr eitemau y gwnaethpwyd cais ar eu cyfer.**
- (c) Mae'ch prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Bydd llythyr cymeradwyo yn cael ei ddarparu ar eich cyfer ar-lein. Bydd yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad a bydd gofyn ichi dderbyn fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau hynny. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i brynu yr eitemau yn eich contract.

## AMODAU'R GRANT

54. Daw'r Gronfa EMFF o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

55. Mae'r Grant EMFF a gynigir yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r rhai a amlinellir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi'u talu i chi, neu leihau cyfanswm y grant sy'n daladwy**

### Amodau:

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a ddyfernir cyn pen tri-deg (30) o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad mae eich llythyron cymeradwyo a chontractau'n cael eu cyflwyno ar-lein.
2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr yn y cais ac mewn gohebiaeth ar-lein ddilynol. **Mae'n drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.**
3. Ni ddylech brynu unrhyw eitem y gwnaethpwyd cais amdano cyn derbyn y cynnig o grant.

4. Ni chewch newid yr eitemau yr ydych wedi'u dewis wedi ichi dderbyn cynnig o grant.
5. Mae'n **RHAID** ichi brynu pob eitem sydd wedi'i ddewis.
6. Mae'n **RHAID** ichi wneud un cais am bob un o'r eitemau ar yr un pryd.
7. Rhaid i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith y DU a'r UE, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
8. Ni chaniateir gwneud unrhyw newid i'r prosiect, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
9. Ni chewch waredu, trosglwyddo na gwerthu unrhyw offer a brynir gyda chymorth y grant heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, am bum mlynedd o ddyddiad y buddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys newidiadau anuniongyrchol e.e. pan fydd cwch yn newid perchennog neu pan fydd lleoliad unrhyw eitem sydd wedi'i ariannu yn newid.
10. Eich cyfrifoldeb chi fel yr ymgeisydd gwreiddiol yw hysbysu'r perchnogion newydd o'r ymrwymadau cyllid sy'n gysylltiedig â'r eitem. Bydd yn ofynnol i'r perchnogion newydd dderbyn telerau ac amodau y cyllid am yr amser sy'n weddill hyd at 5 mlynedd o'r dyddiad y cafodd y cynnig gwreiddiol ei dderbyn.
11. Os nad yw perchennog newydd yr eitem neu'r eitemau yn derbyn telerau ac amodau y cyllid sy'n gysylltiedig, yna ystyrir nad yw'r eitem wedi cyflawni ei rwymedigaethau i'r cynllun ac felly mae'n bosibl y bydd gweithdrefnau adfer yn dechrau a'r cyllid yn cael ei adfer gennych fel yr ymgeisydd gwreiddiol.
12. Ni ddylech drosglwyddo cwch pysgota y tu allan i'r UE am o leiaf 5 mlynedd wedi talu'r cyllid EMFF i'r ymgeisydd; os nad ydych yn gwneud hyn mae'n rhaid ichi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian EMFF a gawsoch. Mae yr union swm sy'n rhaid ichi ei dalu yn ôl yn dibynnu pryd yr oeddech wedi trosglwyddo'r cwch.
13. Mae'n rhaid cyflwyno hawliadau yn y fformat cywir a chyflwyno ar yr un pryd yr holl ddogfennaeth angenrheidiol. Oni wneir hyn, ni chânt eu derbyn ac fe'u dychwelir at yr hawlydd.

14. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.
15. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed hynny o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig).
16. Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraewyd gan yr Undeb Ewropeaidd a chan Lywodraeth Cymru wrth ei noddi.
17. Mae'n rhaid cadw cofnodion ynghylch gweithgaredd y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau eraill perthnasol megis tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, am o leiaf chwe mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect fel y'i nodir yn y llythyr cymeradwyo grant hwn.
18. Mae'n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop archwilio'r eitemau a brynwyd. Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r buddsoddiad.
19. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**a. Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn llwyddiannus, fod Llywodraeth Cymru a'r Gymuned Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

20. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y cais ac unrhyw ddogfennau atodol yn destun i'r Nodyn Preifatrwydd sydd ar gael ar <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/europe-an-maritime-fisheries-fund/?skip=1&lang=cy>
21. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## TALU GRANT

### Hawliadau

56. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ynghylch sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
57. Rhaid ichi brynu'r **holl** eitemau sydd ar eich contract a'u hawlio trwy'ch cyfrif RPW ar-lein o fewn **120 o ddyddiau calendr** ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi.
58. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Wedi prynu, cynhelir asesiad manwl o'r eitemau. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys anfonebau gwreiddiol, rhifau cyfresol/offer, tystysgrif gwblhau Rheoliadau Adeiladu (os yn briodol); system lechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddiad risg; dogfennau Asesu Risgiau Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion y Drefn Lanhau, cofnodion Rheoli Plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

### Hawlio ar gam a chosbau

59. Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod y cais mewn pryd.
60. Os yw'r hawliad yn anghywir, bydd eich hawliad yn cael ei leihau i'r cyfanswm cymwys a bydd y grant i'w dalu yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny.
61. Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â chymhwyster unrhyw wariant, rhaid i chi wirio **cyn** i chi fynd i **gostau**.

### Troseddau

62. Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 Rhif 665 (W. 182) yn sefydlu bod troseddau a chosbau yn gysylltiedig â rhai agweddau ar Gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae

enghreifftiau o droseddau yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## **MONITRO BUDDSODDIADAU**

63. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwnnw o bum mlynedd.

## **GWEITHDREFN APELIO**

64. Os caiff cais ei wrthod, caiff y rhesymau dros ei wrthod eu nodi'n glir. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

65. Os bydd y cais yn dal i gael ei wrthod, sefydlir gweithdrefn apelio ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ond sy'n annibynnol arnynt.

## **GWEITHDREFN GWYNO**

66. Os ydych chi o'r farn nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn: [https://llyw.cymru/sut-i-wneud-cwyn-am-lywodraeth-cymru.html?\\_ga=2.230613151.264449744.1588580670-2102803203.1588161789](https://llyw.cymru/sut-i-wneud-cwyn-am-lywodraeth-cymru.html?_ga=2.230613151.264449744.1588580670-2102803203.1588161789)